

Ffocws ar chwarae

Cynghorau tref a chymuned

Mae'r papur briffio hwn ar gyfer cynghorau tref a chymuned yn darparu gwybodaeth ar sut i gefnogi cyfleoedd gwell i blant chwarae yn eu cymunedau eu hunain. Mae plant ac arddegwyr angen ac mae ganddynt hawl i gael amser a manau o safon ar gyfer chwarae fel rhan o'u bywydau bob dydd yn eu cymunedau eu hunain.

Mae cynghorau tref a chymuned, ac felly gynghorwyr hefyd, yng Nghymru mewn sefyllfa dda i fod yn hyrwyddwyr chwarae ar ran y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac yn byw ynddynt. Mae gan ein cynghorwyr tref a chymuned wreiddiau dyfnion yn y gymuned. Mae'r trigolion yn eu hadnabod ac, yn aml, bydd ganddynt gysylltiadau cryfion gyda darpar-bartneriaid defnyddiol, fel yr awdurdod lleol, ysgolion ac arweinyddion busnes.

Mae rhai ffactorau allweddol y bydd angen iddynt fod yn eu lle er mwyn hybu mynediad plant i gyfleoedd chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys caniatâd, amser a lle – mae cynghorau cymuned lleol mewn sefyllfa dda i gefnogi'r ffactorau hyn i gyd.

Mae llawer o gynghorau tref a chymuned yn darparu cyfleusterau neu yn cyfrannu at ddarpariaeth chwarae, er enghraifft caeau chwarae, ardaloedd chwarae, meysydd chwarae, a neuaddau cymunedol y gellir eu defnyddio i gynnal cynlluniau chwarae plant a sesiynau chwarae eraill. Nid oes gan gynghorau eraill yr arian na'r cyfrifoldeb i ddarparu cyfleoedd chwarae traddodiadol. Ond, yn aml iawn y cynghorwyr tref a chymuned sy'n eiriolwyr lleol allweddol dros chwarae – gan weithio gydag eraill i chwilio am gyllid, hybu'r

'Mae llawer o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru'n derbyn cyfrifoldeb am reoli cyfleusterau chwarae plant fel rhan o'r datganoli gwasanaethau cynyddol oddi wrth yr awdurdodau unedol. Mae pawb yn cydnabod yr angen i gynghorau fod yn gwbl ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â hyn, yn ogystal â'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer cyfoethogi darpariaeth sy'n bodoli eisoes, ac mae Un Llais Cymru yn gefnogol iawn o'r rôl y mae Chwarae Cymru'n ei gyfrannu tuag at helpu i ddatblygu'r ddealltwriaeth sy'n angenrheidiol i reoli cyfleusterau lleol hynod werthfawr.'

**Paul R. Egan, Dirprwy Brif Weithredwr
a Rheolwr Adnoddau, Un Llais Cymru**

gymuned i ymuno mewn chwarae, a thrin a thrafod er mwyn sicrhau gwell darpariaeth chwarae'n lleol.

Mae chwarae'n cyfrannu at les a gwytnwch plant. Mae cael manau croesawus, digon o amser a chwmni pobl eraill i chwarae â nhw bob dydd, o bwys mawr i bob plentyn ac arddegwr – fel oedolion mae angen inni feithrin amgylcheddau sy'n cefnogi hyn.



Polisiau cenedlaethol a rhyngwladol

Mae gan bob plentyn hawl i chwarae, fel sydd wedi ei ddiogelu yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Er mwyn sicrhau bod Cymru'n wlad sy'n creu cyfle i chwarae a darparu cyfleoedd rhagorol i'n plant chwarae, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen i awdurdodau lleol, eu partneriaid a rhanddeiliaid eraill weithio tuag at y nod hwn hefyd. O ganlyniad, cynhwyswyd adran ar Gyfleoedd Chwarae ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Daw'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae fel rhan o agenda Llywodraeth Cymru yn erbyn tlodi sy'n cydnabod y gall plant ddiodef o dlodi profiad, cyfle ac uchelgais, ac y gall y math yma o dlodi effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar draws Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i gydnabod pwysigrwydd cyfleoedd chwarae ym mywydau plant ac i wneud ymrwymiad cadarn i weithio'n ddiwyd ar draws polisiau ac adrannau, gyda sefydliadau partner, a gyda phlant a'u teuluoedd a'u cymunedau i sicrhau bod plant yn cael y cyfleoedd chwarae y maent am eu cael ac y mae ganddynt yr hawl i'w disgwyl. Mae'r partneriaethau perthnasol yn debygol o gynnwys cynghorau tref a chymuned.



Ardaloedd chwarae a manau agored

Er mwyn cynorthwyo cynghorau tref a chymuned, cymdeithasau chwarae lleol neu grwpiau trigolion i ystyried gwelliannau neu ddatblygiadau i fannau chwarae, mae Chwarae Cymru wedi datblygu dau becyn cymorth.

Mae'r pecyn cymorth cymunedol *Datblygu a rheoli manau chwarae* wedi ei ddylunio ar gyfer unrhyw un sy'n gyfrifol am reoli neu ddatblygu man chwarae mewn cymuned.

www.chwarae.cymru/datblygu-a-rheoli-mannau-chwarae/

Mae'r pecyn cymorth *Creu manau chwarae hygyrch* wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth eglur a chryno er mwyn helpu i greu manau chwarae sy'n galluogi pob plentyn i chwarae, ynghyd â'u ffrindiau a'u teuluoedd.

www.chwarae.cymru/creu-mannau-chwarae-hygyrch/

Mae'r pecynnau cymorth yn darparu gwybodaeth benodol gyda'r bwriad o helpu'r darllenydd i ddeall maes penodol o reoli neu ddatblygu manau chwarae. Maent hefyd yn cynnwys dulliau cam-wrth-gam ymarferol, fel canllawiau neu dempledi, ar gyfer cwblhau gwaith sy'n gysylltiedig â rheoli a datblygu manau chwarae. Mae'r rhain wedi eu dylunio i'n cynorthwyo i gynnig darpariaeth chwarae o ansawdd sy'n cynnig cyfle i bob plentyn ac ardegwr ryngweithio'n gwbl rhydd gyda, neu i brofi'r canlynol:

- **plant a phobl ifanc eraill** – gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, i drafod, i gydweithio, i ddadlau, a datrys anghydfodau
- **y byd naturiol** – y tywydd, y tymhorau, llwyni, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid a mwd
- **rhannau rhydd** – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu
- **yr elfennau naturiol** – daear, awyr, tân a dŵr her ac ansicrwydd – ar lefel corfforol ac emosiynol hefyd
- **symud** – rhedeg, neidio, dringo, cydbwysu a rholio
- **y synhwyrau** – synau, gwahanol flas a gwead, aroglau a golygfeydd.



‘Fu’r un elfen negyddol wedi inni adael i blant chwarae ar y tir ar ôl oriau ysgol ... ni chafodd fy ofnau eu gwireddu o gwbl. Fu dim fandaliaeth ac roedd y plant a’r rhieni a gymerodd ran wrth eu bodd. Fe agorodd ein hysgol i’r gymuned... Fe wnaeth plant sydd ddim yn ymuno mewn gweithgareddau eraill fel arfer, aros ar ôl ysgol a chwarae. Rwy’n teimlo iddo fod yn llwyddiant ysgubol.’

Llywodraethwr ysgol, yn dilyn prosiect peilota pecyn cymorth ysgolion Chwarae Cymru

Tiroedd ysgol

Mae cyfleusterau ysgol sy’n bodoli eisoes, yn y mwyafrif o achosion, yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ddigoni, nid yn unig anghenion dysgu pob dysgwr, ond hefyd lawer o anghenion cymdeithasol ac adloniadol y gymuned. Yn aml, mae adeiladau ysgol, eu cynnwys a’u tiroedd yn cynrychioli’r ased unigol fwyaf yn y mwyafrif o gymunedau.

Mae’r pecyn cymorth *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae’r tu allan i oriau addysgu* yn cynorthwyo cymunedau ysgolion a’u partneriaid i asesu’r posibilrwydd o agor tiroedd ysgolion i blant chwarae, y tu allan i oriau addysgu.

Cynhaliwyd peilot o’r pecyn cymorth fel rhan o brosiect ymchwil. Yn ystod y cyfnod cynllunio, mynegodd staff yr ysgol nifer o bryderon am y prosiect, fel pryderon am ofn ymgyfreithiad, difrod, fandaliaeth ac effaith posibl plant hŷn yn creu helynt. Yn ystod y prosiect, fe newidiodd yr agweddau hyn a nodwyd mewn cyfweiliadau ar ôl y prosiect nad oedd llawer o’r pryderon gwreiddiol wedi eu gwireddu. Gwelodd cymunedau’r ysgolion y buddiannau uniongyrchol, nid dim ond i’r plant ond i gymunedau a theuluoedd hefyd.

www.chwarae.cymru/defnyddio-tiroedd-ysgol-ar-gyfer-chwarae-tu-allan-i-oriau-addysgu/

Cynlluniau chwarae dros y gwyliau

Mae rhai cynghorau tref a chymuned yn gweithio mewn partneriaeth â’r awdurdod lleol i ddarparu cynlluniau chwarae dros y gwyliau ar gyfer plant yn eu

cymuned. Gall hyn fod trwy ddarparu adeilad neu ofod neu trwy drefniant ariannu. Mae eraill yn darparu cynlluniau chwarae dros y gwyliau’n uniongyrchol ar gyfer plant yn eu cymuned. Yn aml, cynlluniau tymor byr yw’r rhain am ychydig oriau’r dydd am nifer o wythnosau’n ystod cyfnod gwyliau ysgol.

Bellach mae pob darpariaeth chwarae a gofal plant, yn cynnwys cynlluniau chwarae dros y gwyliau a darpariaeth chwarae ar gyfer plant dan 12 mlwydd oed, sy’n gweithredu am ddwy neu fwy o oriau’r dydd, yn cael eu rheoleiddio a’u harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Os yw cyngor wedi ei gofrestru gydag AGC, mae’n ofynnol iddynt gwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS), sy’n cynnwys adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal y mae’r gwasanaeth yn ei ddarparu. Mae’r wybodaeth hon yn rhoi gwybod i AGC am y gwasanaeth a’r system sydd yn ei lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddir i blant ac fe’i defnyddir i lywio arolygon o’r gwasanaeth.

Mae Chwarae Cymru wedi datblygu cyfres o gymwysterau i gefnogi gweithrediad cynlluniau chwarae’n ystod y gwyliau:

- Mae’r Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) yn gyflwyniad perffaith i’r rheini sy’n newydd i waith chwarae neu’r rheini sy’n gweithio mewn cynlluniau chwarae tymor byr, dros y gwyliau.
- Anelir Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae’n Ystod Gwyliau’r Ysgol (MAHPS) at y rheini sy’n meddu eisoes ar gymwysterau Lefel 3 mewn gwaith arall gyda phlant a phobl ifanc ond



sydd angen cymhwyster gwaith chwarae er mwyn gallu bod yn berson sy'n gyfrifol am gynllun chwarae'n ystod y gwyliau.

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/cymwysterau-a-hyfforddiant/

Sesiynau chwarae stryd

Yng Nghymru, ac ar draws y DU, mae nifer o brosiectau a mentrau sy'n gwneud strydoedd a chymunedau'n fannau mwy chwarae-gyfeillgar ar gyfer plant ac ardegwyr.

Un model yw'r prosiect Playing Out, sesiynau chwarae stryd y tu allan i oriau ysgol a arweinir gan gymdogion. Sefydlwyd y prosiect gan rieni ym Mryste ac fe'i dyluniwyd i gynyddu ymwybyddiaeth a symblu cefnogaeth a diddordeb mewn chwarae stryd mewn ardaloedd ble y mae wedi edwino neu ddiplannu. Y bwriad yw iddo fod yn sbardun ar gyfer adfer chwarae ar y stryd fel rhan iach a chyffredin o fywyd bob dydd yn ein trefi a'n dinasoedd.

Mae sesiynau chwarae stryd yn ddigwyddiadau chwarae ar ôl ysgol neu ar y penwythnos gaiff eu harwain gan gymdogion a'u hysbysebu mewn strydoedd cyfagos yn unig. Caiff ffordd breswyl ei chau i draffig er mwyn sicrhau diogelwch a rhyddid i'r cyfranogwyr symud o gwmpas, gyda stiwardiaid gwirfoddol ger pob mynedfa ble mae'r ffordd wedi

ei chau er mwyn cyfeirio'r traffig a sicrhau tawelwch meddwl i rieni.

Rhieni a gofawyr fydd yn gyfrifol am eu plant eu hunain ac mae'r pwyslais ar chwarae rhydd, heb ei strwythuro. Fel arfer bydd pobl yn dod â'u teganau eu hunain allan fel rhaffau sgipio, beics a sgwteri. Yn syml iawn, bydd y plant yn cael lle a chaniatâd i chwarae allan ar y stryd, tra bo'r oedolion yn cael cyfle i gwrdd, dod i adnabod eu cymdogion yn well a phrofi stryd sy'n rhydd o geir.

Yn dilyn prosiectau peilot llwyddiannus ledled Cymru, mae Chwarae Cymru wedi cynhyrchu adnoddau i gefnogi chwarae stryd.

Mae *Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd – fersiwn o lawlyfr Playing Out ar gyfer trigolion yng Nghymru* yn darparu gwybodaeth am y broses ymgynghori, awgrymiadau anhygoel ac atebion i bryderon cyffredin.

www.chwarae.cymru/sut-i-drefnu-sesiynau-chwaraer-tu-allan-ar-dy-stryd/

Mae *Agor strydoedd ar gyfer chwarae – Pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid yng Nghymru* yn becyn cymorth i helpu awdurdodau lleol i ddatblygu polisiau a gweithdrefnau i alluogi prosiectau chwarae stryd wedi eu harwain gan drigolion yn eu hardaloedd.

Mae'r ddau becyn cymorth yn cynnwys templedi ar gyfer llythyrau ac adnoddau defnyddiol eraill.

Eiriol dros chwarae

Mae ein gwefan *Plentyndod Chwareus* yn anelu i helpu rhieni, gofalwyr a grwpiau cymunedol i roi digonedd o gyfleoedd da i blant chwarae adref ac yn eu cymuned leol. Mae'n ddefnyddiol hefyd i grwpiau lleol a chynghorau tref a chymuned i ddarparu cymdogaethau chwarae-gyfeillgar yn eu hardaloedd.

Mae'r wefan yn darparu:

- Syniadau ymarferol ar sut i ddarparu amser, lle a phethau i chwarae gyda nhw
- Awgrymiadau anhygoel, canllawiau 'sut i' a syniadau ar gyfer chwarae plant
- Gwybodaeth ar gynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae
- Arweiniad ar gynllunio ardal chwarae gymunedol
- Enghreifftiau o gymunedau chwareus phrosiectau ar hyd a lled Cymru
- Dolenni i wybodaeth ar gyfleoedd chwarae sydd ar gael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

Datblygwyd y wefan i gefnogi:

- Rhieni i roi cyfleoedd i'w plant chwarae
- Rhieni, fel eu bod yn teimlo'n hyderus ynghylch gadael i'w plant chwarae'r tu allan yn y gymuned

Plentyndod Chwareus

- Datblygu cymunedau chwareus ar gyfer plant ar hyd a lled Cymru
- Dealltwriaeth gyffredin o bwysigrwydd chwarae ar gyfer plant ac arddedgwyr gan bob oedolyn ledled Cymru.
- Mae'r wefan yn llawn gwybodaeth ac arweiniad ymarferol ar gyfer gwneud plentyndod a chymunedau ledled Cymru'n fwy chwareus.

www.plentyndodchwareus.cymru

Canllaw Cymunedau Chwareus

Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod gan blant le, amser a chaniatâd i chwarae – dyma'r amodau sy'n cefnogi chwarae.

Mae'r canllaw yn amlinellu yr hyn ellir ei wneud i wneud cymunedau yn fwy chwareus ac mae'n cynnwys enghreifftiau o sut y mae wedi ei wneud mewn ardaloedd eraill o Gymru.

Datblygwyd y canllaw mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuencid a Chwarae Wrecsam.

www.chwarae.cymru/cymunedau-chwareus/

Diwrnod Chwarae – y diwrnod cenedlaethol ar gyfer chwarae yn y DU

Yn ogystal â bod yn ddathliad o hawl plant i chwarae, mae Diwrnod Chwarae'n ymgyrch sy'n pwysleisio pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant. Fe'i cynhelir bob blwyddyn ar Ddydd Mercher cyntaf mis Awst.

Ar Ddiwrnod Chwarae, bydd miloedd o blant a'u teuluoedd yn mynd allan i chwarae mewn cannoedd o ddigwyddiadau cymunedol ar draws y DU. O ddigwyddiadau cymunedol bychan i ddigwyddiadau gaiff eu trefnu mewn parciau a mannau agored – bydd Diwrnod Chwarae'n cael ei ddathlu gan bob cymuned mewn modd sy'n gweddu iddyn nhw.

www.playday.org.uk



Rôl cynghorau tref a chymuned wrth hyrwyddo chwarae

Fel oedolion, mae angen inni helpu plant trwy roi chwarae ar yr agenda ar bob cyfle priodol – gyda rhieni a gofalwyr, gyda rheolwyr ysgolion, gyda llunwyr penderfyniadau a chynllunwyr. Mae angen inni gefnogi darpariaeth amser a lle digonol i blant chwarae bob dydd yn eu cymunedau.

Er mwyn cefnogi plant i chwarae yn eu cymunedau eu hunain, gall cynghorau tref a chymuned:

- Sicrhau y caiff anghenion chwarae plant eu hystyried mewn cynllun lleol neu broffil cymunedol
- Trefnu digwyddiad neu weithgaredd i ddathlu Diwrnod Chwarae

- Cysylltu gyda swyddog datblygu chwarae'r awdurdod lleol i weld pa gymorth y gallan nhw ei gynnig neu sut y gallech weithio mewn partneriaeth
- Gweithio gyda chymuned yr ysgol leol i ystyried sicrhau bod tir yr ysgol ar gael i blant ac i'r gymuned y tu allan i oriau ysgol
- Gweithio gyda'r awdurdod lleol i drefnu cau strydoedd ar gyfer chwarae
- Eiriol dros chwarae pryd bynnag y bo modd – wrth sgwrsio gyda'r trigolion, mewn cyfarfodydd cymunedol ac wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc
- Dilyn tudalennau Facebook Chwarae Cymru a *Plentyndod Chwareus*.



Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru